



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau

Dogfen grynodeb dechnegol

Hydref 2023

Steven Osborne, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Prosiect Gwelliant Cydweithredol QAA Cymru a ariennir gan
CCAUC



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Cynnwys

1	Rhagarweiniad.....	1
2	Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau:	1
	Ffigur 1: Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau (FfCMG).....	2
3	Cyfnod Cwmpasu a Chynllunio FfCMG	3
	Ymgysylltiad Arbenigwyr	3
	Partneriaethau	3
	Adolygu Systemau Ansawdd, Polisi, a Gweithdrefnau.....	3
	Gweithredu Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol	4
4	Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG	5
	Addysgu a Chynllunio Cyrsiau	5
	Asesiad.....	5
	Ymrestru.....	5
	Ymgysylltiad Myfyrwyr.....	6
	Pryderon, Cwynion ac Apeliadau	6
	Gweithredu Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol	7
5	Cynhyrchu yn ystod Cam FfCMG	9
6	Cyfnod Cyflwyno, Monitro a Gwerthuso FfCMG	9
	Gweithredu Cam Cynhyrchu FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol	10
	Gweithredu Cam Cyflwyno, Monitro a Gwerthuso'r FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol	10
	Cyfeirnodau:.....	11

1 Rhagarweiniad


Ni ddylai amlinelliad QAA (2022) fod micro-gymwysterau yn dwyn credydau yn erbyn lefel gydnabyddedig o'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol, fod â chyfyngiadau uchaf nac isaf o ran faint o gredydau, ond ni ddylent fel arfer fod yn ddyfarniad macro-gymhwyster llawn. Mae asiantaethau a llywodraethau byd-eang yn argymhell defnyddio micro-gymwysterau y gellir eu pentyrru fel datrysiad i hyrwyddo mynediad at gyfleoedd dysgu gydol oes. Trwy'r ddarpariaeth hon, dylai fod gan ddysgwyr fwy o reolaeth dros eu haddysg a'u datblygiad sgiliau trwy gyfuno cymwysterau i alinio â'u nodau personol a phroffesiynol. Gall micro-gymwysterau fynd i'r afael â rhwystrau megis fforddiadwyedd ac ymgysylltu hyblyg â gwybodaeth arbenigol, gan eu gwneud yn hygyrch i ystod ehangach o ddysgwyr. Mae QAA (2022) yn eu canllawiau yn awgrymu y gall micro-gymwysterau fod yn annibynnol neu wedi'u cyfuno i ffurfio macro-gymwysterau ehangach trwy eu pentyrru. Mae'r model pentyrru hwn yn canolbwyntio ar ganiatáu i ddysgwyr ennill gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau mewn llwybrau dysgu cydlynol a all arwain at gymhwyster gradd prifysgol cydnabyddedig mewn disgyblaeth pwnc dros amser.

Wrth i dystysgrifau micro-gymwysterau a rhaglenni y gellir eu pentyrru gael eu cydnabod yn fwy eang ac y gellir ymddiried ynddynt a'u parchu, gallant drawsnewid addysg uwch genedlaethol a rhyngwladol trwy gynnig llwybrau mwy hyblyg ac wedi'u teilwra'n benodol at lwyddiant dysgwyr. Fodd bynnag, heb sicrwydd ansawdd cadarn, mae perygl y caiff micro-gymwysterau eu hystyried yn fersiynau symlach o gyrsiau gradd traddodiadol, ac efallai na fydd arweinwyr diwydiant a chyflogwyr yn deall gwerth y cymwysterau hyn. Mae llywodraethau cenedlaethol a sefydliadau sicrhau ansawdd addysg uwch fel Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y DU (QAA, 2022) yn dechrau mynd i'r afael â'r her hon trwy gynhyrchu diffiniadau a chanllawiau clir ar y safonau sydd eu hangen ar gyfer datblygu, gweithredu ac adolygu micro-gymwysterau (e.e. Varadarajan et al. 2023; Brown a Nic-Giolla-Mhichil, 2022, Shapiro et al., 2020). Er y gall terminoleg micro-gymwysterau fod yn newydd, nid felly'r cysyniad, gan fod bwndeli hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol llai a chysiau byr wedi bod yn rhan hanfodol o addysg oedolion, ac mae gan sefydliadau AU hanes hir o gynnig cyrsiau byr sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaedd amrywiol (Hudak a Camilleri, 2021).

2 Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau:

Mae'r ddogfen dechnegol hon ar ficro-gymwysterau yn seiliedig ar y profiad o ddatblygu peilot ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch lefel 4 sy'n cynnwys micro-gymwysterau y gellir eu pentyrru fel rhan o brosiect wedi'i ariannu a gwblhawyd i gynorthwyo Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i ddeall ble y gallai micro-gymwysterau gefnogi adferiad economaidd yng Nghymru. Arweiniodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gyda chefnogaeth nifer o randdeiliaid addysg uwch a diwydiant, brosiect peilot i fynd i'r afael â sut i ddatblygu darpariaeth micro-gymwysterau tra'n cadw at ganllawiau ansawdd QAA (QAA 2022). Nod y prosiect oedd datblygu dealltwriaeth o'r materion systemig sy'n effeithio ar ddatblygiad y ddarpariaeth o ficro-gymwysterau mewn addysg uwch. Trwy gyllido pellach gan QAA Cymru mae'r tîm cynllunio wedi datblygu fframwaith cynllunio micro-gymwysterau (FfCMG - Ffigur 1) a ddatblygwyd i gynorthwyo arweinwyr pwnc a sefydliadau yn y gwaith o gwmpasu, cynllunio, cymeradwyo a chynhyrchu. Bydd y ddogfen grynoded dechnegol hon yn amlinellu'r anawsterau a'r penderfyniadau sylfaenol y gall timau cynllunio rhaglenni a rheolwyr sefydliadau eu hystyried wrth gymeradwyo a darparu rhaglenni micro-gymwysterau unigol neu rai y gellir eu pentyrru.

Ffigur 1: Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau (FfCMG)



Cwmpasu a Chynllunio	Cynllunio a Chymeradwyo	Cyfnod cynhyrchu	Cyflwyno a Gwerthuso																																																																																																																																
Diffinio Macro-Amcanion <table border="1"> <tr> <th>Cyd-destun</th> <th>Diben</th> <th>Ymgysylltu</th> </tr> <tr> <td>Diwydiant</td> <td>Mynediad Hyblyg</td> <td>Asiantaethau</td> </tr> <tr> <td>Galwedigaeth (au)</td> <td>Uwchsglilio</td> <td>Cyflogwyr</td> </tr> <tr> <td>Sector</td> <td>Ailsglilio</td> <td>Llywodraeth</td> </tr> <tr> <td>Daearyddol</td> <td>Generig</td> <td>Cydweithredwyr</td> </tr> </table> Gwybodaeth a Mewnwelediad <table border="1"> <tr> <th>Cynllunio'r Gweithlu</th> <th>Datblygu'r Gweithlu</th> <th>Mewnwelediad Dysgwyr</th> </tr> <tr> <td>LMI caled</td> <td>Ffurfiol</td> <td>Ymarfer</td> </tr> <tr> <td>LMI meddal</td> <td>Ddim yn furfiol</td> <td>Nodweddion</td> </tr> <tr> <td>LMI unigol</td> <td>Anffurfiol</td> <td>Rhwystrau</td> </tr> <tr> <td>Tueddiadau</td> <td>Tueddiadau</td> <td>Tueddiadau</td> </tr> </table> Adolygiad Systemau ac Ansawdd <table border="1"> <tr> <th>Rheoliadau</th> <th>Cymeradwyaeth</th> <th>Consortiwm</th> </tr> <tr> <td>Adolygu</td> <td>Adolygu</td> <td>Adnabod</td> </tr> <tr> <td>Addasu</td> <td>Addasu</td> <td>Tim</td> </tr> <tr> <td>Cydgordio</td> <td>Achos Busnes</td> <td>Cytundebau</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td>Prisio</td> </tr> </table>	Cyd-destun	Diben	Ymgysylltu	Diwydiant	Mynediad Hyblyg	Asiantaethau	Galwedigaeth (au)	Uwchsglilio	Cyflogwyr	Sector	Ailsglilio	Llywodraeth	Daearyddol	Generig	Cydweithredwyr	Cynllunio'r Gweithlu	Datblygu'r Gweithlu	Mewnwelediad Dysgwyr	LMI caled	Ffurfiol	Ymarfer	LMI meddal	Ddim yn furfiol	Nodweddion	LMI unigol	Anffurfiol	Rhwystrau	Tueddiadau	Tueddiadau	Tueddiadau	Rheoliadau	Cymeradwyaeth	Consortiwm	Adolygu	Adolygu	Adnabod	Addasu	Addasu	Tim	Cydgordio	Achos Busnes	Cytundebau			Prisio	Strwythur y Rhaglen, Dysgu ac Addysgu <table border="1"> <tr> <th>Dyfarniad</th> <th>Bodlon</th> <th>Asesiad</th> <th>Modd</th> </tr> <tr> <td>Lefel NQF / EQF</td> <td>Safonau profesiynol</td> <td>Lefel NQF / EQF</td> <td>Wyneb-yn-wyneb</td> </tr> <tr> <td>Maint Credyd</td> <td>Meincnodau Pwnc</td> <td>Safonau profesiynol</td> <td>Cydamserol ar-lein</td> </tr> <tr> <td>Llwybr pentyrru</td> <td>Cyflogadwyedd</td> <td>Achrediad</td> <td>Ar-lein Anghydamserol</td> </tr> <tr> <td>Achrediad</td> <td>Ymgynghoriad</td> <td>Cydnabod Dysgu Blaenorol</td> <td>Hybrid</td> </tr> </table> Lyfrgell <table border="1"> <tr> <td>Mynediad diriaethol</td> </tr> <tr> <td>Mynediad o bell</td> </tr> <tr> <td>Trwyddedu</td> </tr> </table> Platfform <table border="1"> <tr> <td>Adnoddau diriaethol</td> </tr> <tr> <td>Amyglicedd Dysgu Rhithwir</td> </tr> <tr> <td>Offer Cyflwyno Digidol</td> </tr> <tr> <td>Cymorth TG</td> </tr> </table>	Dyfarniad	Bodlon	Asesiad	Modd	Lefel NQF / EQF	Safonau profesiynol	Lefel NQF / EQF	Wyneb-yn-wyneb	Maint Credyd	Meincnodau Pwnc	Safonau profesiynol	Cydamserol ar-lein	Llwybr pentyrru	Cyflogadwyedd	Achrediad	Ar-lein Anghydamserol	Achrediad	Ymgynghoriad	Cydnabod Dysgu Blaenorol	Hybrid	Mynediad diriaethol	Mynediad o bell	Trwyddedu	Adnoddau diriaethol	Amyglicedd Dysgu Rhithwir	Offer Cyflwyno Digidol	Cymorth TG	Cyn-gynhyrchu <table border="1"> <tr> <th>Staff</th> <th>Adnoddau</th> </tr> <tr> <td>Canllawiau</td> <td>Cynllun Cynhyrchu</td> </tr> <tr> <td>Adelladu Gallu</td> <td>Safonau Cynllunio</td> </tr> <tr> <td>Protocolau Tim</td> <td>Cynllunio Cyfathrebu</td> </tr> <tr> <td>Cynllunio llwyth gwaith</td> <td>Cynllun Cyflieithu</td> </tr> </table> Cynhyrchu <table border="1"> <tr> <th>Cyfrngau</th> <th>Asesiad</th> </tr> <tr> <td>Creu</td> <td>Furfiannol</td> </tr> <tr> <td>Casglu ynghyd</td> <td>Crynodol</td> </tr> <tr> <td>Golygu</td> <td>Cefnogaeth</td> </tr> <tr> <td>Bwrdd stori</td> <td>Dilyniant</td> </tr> </table> Ôl-gynhyrchu – Cyn Lansio <table border="1"> <tr> <th>Profi</th> <th>Gwerthuso</th> </tr> <tr> <td>Profi defnyddioldeb</td> <td>Dadansoddiad Dysgwyr</td> </tr> <tr> <td>Proffion Llwyth Gwybyddol</td> <td>Cynllun Adrodd</td> </tr> </table>	Staff	Adnoddau	Canllawiau	Cynllun Cynhyrchu	Adelladu Gallu	Safonau Cynllunio	Protocolau Tim	Cynllunio Cyfathrebu	Cynllunio llwyth gwaith	Cynllun Cyflieithu	Cyfrngau	Asesiad	Creu	Furfiannol	Casglu ynghyd	Crynodol	Golygu	Cefnogaeth	Bwrdd stori	Dilyniant	Profi	Gwerthuso	Profi defnyddioldeb	Dadansoddiad Dysgwyr	Proffion Llwyth Gwybyddol	Cynllun Adrodd	Ymrestru <table border="1"> <tr> <th>Sefydlu</th> <th>Rhagarweiniad</th> </tr> <tr> <td>Cyn dechrau</td> <td>Llawyfrau</td> </tr> <tr> <td>Systemau</td> <td>Amcanion</td> </tr> <tr> <td>Gwasanaethau</td> <td>Deiliannau Dysgu</td> </tr> <tr> <td>Cwrs</td> <td>Dull Dysgu</td> </tr> </table> Cyflwyno <table border="1"> <tr> <th>Dysgwr</th> <th>Staff</th> </tr> <tr> <td>Medrau</td> <td>Cyflwyno</td> </tr> <tr> <td>Ymgysylltu</td> <td>Monitro</td> </tr> <tr> <td>Cyflwyniad Asesu</td> <td>Mentora</td> </tr> <tr> <td></td> <td>Bugelliol</td> </tr> </table> Gwerthusiad <table border="1"> <tr> <th>Ffurfiol</th> <th>Mewnol</th> </tr> <tr> <td>Arolygon Strategol</td> <td>Adborth Dysgwyr</td> </tr> <tr> <td>Adolygiad PSRB</td> <td>Deiliannau Asesu</td> </tr> <tr> <td></td> <td>Gwerthuso Cyrsiau</td> </tr> <tr> <td></td> <td>Adolygiad Blynyddol</td> </tr> </table>	Sefydlu	Rhagarweiniad	Cyn dechrau	Llawyfrau	Systemau	Amcanion	Gwasanaethau	Deiliannau Dysgu	Cwrs	Dull Dysgu	Dysgwr	Staff	Medrau	Cyflwyno	Ymgysylltu	Monitro	Cyflwyniad Asesu	Mentora		Bugelliol	Ffurfiol	Mewnol	Arolygon Strategol	Adborth Dysgwyr	Adolygiad PSRB	Deiliannau Asesu		Gwerthuso Cyrsiau		Adolygiad Blynyddol
Cyd-destun	Diben	Ymgysylltu																																																																																																																																	
Diwydiant	Mynediad Hyblyg	Asiantaethau																																																																																																																																	
Galwedigaeth (au)	Uwchsglilio	Cyflogwyr																																																																																																																																	
Sector	Ailsglilio	Llywodraeth																																																																																																																																	
Daearyddol	Generig	Cydweithredwyr																																																																																																																																	
Cynllunio'r Gweithlu	Datblygu'r Gweithlu	Mewnwelediad Dysgwyr																																																																																																																																	
LMI caled	Ffurfiol	Ymarfer																																																																																																																																	
LMI meddal	Ddim yn furfiol	Nodweddion																																																																																																																																	
LMI unigol	Anffurfiol	Rhwystrau																																																																																																																																	
Tueddiadau	Tueddiadau	Tueddiadau																																																																																																																																	
Rheoliadau	Cymeradwyaeth	Consortiwm																																																																																																																																	
Adolygu	Adolygu	Adnabod																																																																																																																																	
Addasu	Addasu	Tim																																																																																																																																	
Cydgordio	Achos Busnes	Cytundebau																																																																																																																																	
		Prisio																																																																																																																																	
Dyfarniad	Bodlon	Asesiad	Modd																																																																																																																																
Lefel NQF / EQF	Safonau profesiynol	Lefel NQF / EQF	Wyneb-yn-wyneb																																																																																																																																
Maint Credyd	Meincnodau Pwnc	Safonau profesiynol	Cydamserol ar-lein																																																																																																																																
Llwybr pentyrru	Cyflogadwyedd	Achrediad	Ar-lein Anghydamserol																																																																																																																																
Achrediad	Ymgynghoriad	Cydnabod Dysgu Blaenorol	Hybrid																																																																																																																																
Mynediad diriaethol																																																																																																																																			
Mynediad o bell																																																																																																																																			
Trwyddedu																																																																																																																																			
Adnoddau diriaethol																																																																																																																																			
Amyglicedd Dysgu Rhithwir																																																																																																																																			
Offer Cyflwyno Digidol																																																																																																																																			
Cymorth TG																																																																																																																																			
Staff	Adnoddau																																																																																																																																		
Canllawiau	Cynllun Cynhyrchu																																																																																																																																		
Adelladu Gallu	Safonau Cynllunio																																																																																																																																		
Protocolau Tim	Cynllunio Cyfathrebu																																																																																																																																		
Cynllunio llwyth gwaith	Cynllun Cyflieithu																																																																																																																																		
Cyfrngau	Asesiad																																																																																																																																		
Creu	Furfiannol																																																																																																																																		
Casglu ynghyd	Crynodol																																																																																																																																		
Golygu	Cefnogaeth																																																																																																																																		
Bwrdd stori	Dilyniant																																																																																																																																		
Profi	Gwerthuso																																																																																																																																		
Profi defnyddioldeb	Dadansoddiad Dysgwyr																																																																																																																																		
Proffion Llwyth Gwybyddol	Cynllun Adrodd																																																																																																																																		
Sefydlu	Rhagarweiniad																																																																																																																																		
Cyn dechrau	Llawyfrau																																																																																																																																		
Systemau	Amcanion																																																																																																																																		
Gwasanaethau	Deiliannau Dysgu																																																																																																																																		
Cwrs	Dull Dysgu																																																																																																																																		
Dysgwr	Staff																																																																																																																																		
Medrau	Cyflwyno																																																																																																																																		
Ymgysylltu	Monitro																																																																																																																																		
Cyflwyniad Asesu	Mentora																																																																																																																																		
	Bugelliol																																																																																																																																		
Ffurfiol	Mewnol																																																																																																																																		
Arolygon Strategol	Adborth Dysgwyr																																																																																																																																		
Adolygiad PSRB	Deiliannau Asesu																																																																																																																																		
	Gwerthuso Cyrsiau																																																																																																																																		
	Adolygiad Blynyddol																																																																																																																																		

Osborne a Thirlaway (2023)

3 Cyfnod Cwmpasu a Chynllunio FfCMG

Nod sefydliadau addysg uwch yw ymateb yn effeithiol i anghenion diwydiant trwy ddatblygu micro-gymwysterau, gan gydbwyso'r rhain â dyheadau dysgwyr megis uwchsgilio, newid gyrfa, ac ailsgilio. Dylai'r cam cynllunio ar gyfer rhaglenni micro-gymwysterau neu ficro-gymwysterau y gellir eu pentyrru olygu gwaith ymchwil cadarn a chasglu data yn y cyd-destun diwydiannol a'r meysydd galwedigaethol y mae'r cymwysterau hyn yn ceisio eu gwasanaethu. Mae sefydlu partneriaethau gydag arbenigwyr yn y diwydiant ac academyddion ar gyfer cyd-gynllunio yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y micro-gymwysterau arfaethedig ategu, yn hytrach na disodli, rhaglenni macro-gymwysterau traddodiadol, gan hefyd gadw at safonau proffesiynol, ac alinio â fframweithiau cymwysterau cenedlaethol ac Ewropeaidd. Dylai cwmpasu cynnar ymgorffori casglu data helaeth, gan gynnwys gwybodaeth galed, feddal ac unigol am y Farchnad Lafur o wahanol ffynonellau, fel sail i'r cynllun, gan sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y dysgwyr sy'n cael eu targedu, yn ogystal ag alinio â safonau a thueddiadau'r diwydiant.

Ymgysylltiad Arbenigwyr

Yn ystod cam cychwynnol gweithredu'r FfCMG, dylai'r Tîm Cynllunio Rhaglen ddechrau ymgysylltu ag arbenigedd allanol amrywiol, gan gynnwys academyddion pwnc arbenigol allanol, uwch gynghorwyr diwydiant a phaneli cyflogwyr o uwch broffesiynwyr y diwydiant, gan sicrhau persbectif eang ar safonau proffesiynol ac academaidd ar gyfer y rhaglen ficro-gymwysterau. O ganlyniad, mae angen i brifysgolion ystyried a yw cychwyn proses gymeradwyo ar gyfer cymwysterau y gellir eu pentyrru a phenodi un arholwr allanol yn fwy effeithiol na chymeradwyo cyrsiau unigol ar wahân. Dylai'r penderfyniad hwn hefyd ystyried gwneud cais am achrediad allanol gan Gorff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB).

Partneriaethau

Mae Côt Ansawdd y DU yn diffinio partneriaethau fel ymgysylltiadau cydweithredol ymhlith endidau lluosog ar gyfer addysgu, dysgu, asesu a chymorth i fyfyrwyr. Er y gall y partneriaethau hyn gwmpasu cyrsiau cyfan neu fodiwlau unigol, gan gynnwys gwahanol sefydliadau a dulliau o gyflwyno, mae Henderikx et al. (2022) yn pwysleisio y dylai timau cynllunio ystyried, wrth gychwyn rhaglenni micro-gymwysterau, a ddylai'r ddarpariaeth gynnwys partneriaethau ag un sefydliad neu fwy. Dylai partneriaethau o'r fath flaenoriaethu partneriaid sydd â nodau sy'n cydreddeg a pholisïau wedi'u cysoni er mwyn meithrin ymddiriedaeth a llwybrau clir i ddysgwyr. Dylai timau cynllunio ystyried ymagwedd gytbwys, seiliedig ar risg ar gyfer datblygu micro-gymwysterau, gan bwysleisio pwysigrwydd diogelu enw da'r sefydliad a chysoni polisïau cyfreithiol, ariannol ac academaidd cyn ffurfioli cytundebau cydweithredu.

Adolygu Systemau Ansawdd, Polisi, a Gweithdrefnau

Bydd unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau partner fod yn destun gweithdrefnau ansawdd sydd o leiaf yr un mor drylwyr, diogel ac agored i graffu â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y ddarpariaeth gymeradwy (QAA, 2018). Dylai timau cynllunio rhaglenni ymgysylltu cyn gynted â phosibl ag arbenigwyr gwasanaethu proffesiynol mewnol megis gwella ansawdd, y gofrestrfa, llyfrgelloedd, y gwasanaeth gyrfaoedd a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr fel sail ac i ddilysu egwyddorion cynllunio priodol ar gyfer cynigion micro-gymwysterau unigol neu rai y gellir eu pentyrru. Wrth ymgysylltu ag arbenigwyr mewnol, rhaid i dimau cynllunio sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a systemau rheoli ansawdd presennol yn gallu darparu ar gyfer micro-gymwysterau er mwyn osgoi mynd ati i addasu polisïau, prosesau a systemau macro-gymwysterau sy'n bodoli eisoes, fyddai'n gwbl anymarferol.

Gweithredu Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol

Testun Ansawdd Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio	
Egwyddorion Cynllunio	Dylid cynllunio micro-gymwysterau i fod yn hyblyg, gan ddarparu ar gyfer anghenion diwydiant, targedu gofynion dysgwyr, fel uwchsgilio, ailsgilio, a thrawsnewid gyrfa.
	Blaenoriaethu datblygiad meysydd diwydiannol a galwedigaethol penodol y bydd y micro-gymwysterau'n eu gwasanaethu.
	Cymryd rhan mewn partneriaethau cydweithredol gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant, academyddion, a darparwyr eraill yn gynnar yn y cyfnod cynllunio i lywio'r broses gynllunio a'r cyflwyno
	Dylai micro-gymwysterau ategu rhaglenni traddodiadol heb eu disodli
	Mae angen sicrhau bod cynlluniau ar gyfer micro-gymwysterau'n cyd-fynd â Fframweithiau Cymwysterau presennol y DU a rhai Ewropeaidd.
Arbenigwyr Allanol, Casglu a Dadansoddi Data	Ymgynghori â phroffesiynwyr y diwydiant ac arbenigwyr pwnc i osod amcanion cychwynnol.
	Cydbwyso anghenion dysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau.
	Cynnal adolygiadau datblygu gweithlu strategol i fesur hyfywedd micro-gymwysterau yn y sector addysg.
	Defnyddio Gwybodaeth Marchnad Lafur 'caled' (meintiol) a 'meddal' (ansoddol) i gael cipolwg ar dueddiadau o ran cyflenwi a galw, yn ogystal â phroffiliau'r dysgwyr a dargedir.
	Ystyried cychwyn ymchwil ychwanegol a gymeradwyir yn foesebol i gasglu adborth gan ddefnyddwyr anhraddodiadol.
	Mae'r data a gesglir yn hanfodol ar gyfer canfod pa mor berthnasol a chynaliadwy yw'r micro-gymwysterau yn y tymor canolig i'r hirdymor.
	Gwahodd arbenigwyr allanol annibynnol a diduedd yn ystod y cyfnod FfCMG cychwynnol.
	Ffurio panel amrywiol o uwch gynghorwyr o ddiwydiant i ddarparu mewnwelediad ar amcanion, sgiliau, gwybodaeth, cynllun a dulliau addysgol y rhaglen
Prosesau Cymeradwyo ac Achredu Cyrsiau	Dylai'r broses ar gyfer cymeradwyo cyrsiau gofnodi mewnbyn gan yr ymgynghorwyr allanol yn ffurfiol.
	Ystyried opsiynau ar gyfer cymeradwyo llwybr cymwysterau y gellir eu pentyrru, yn hytrach na micro-gymwysterau unigol, gan sicrhau defnydd effeithlon o arbenigedd mewnol ac allanol.
	Gall y tîm datblygu rhaglenni ystyried sicrhau achrediad proffesiynol gan PSRB ochr-yn-ochr â chymeradwyaeth sylfaenol.
	Bydd monitro blynyddol gan PSRB yn atgyfnerthu sicrwydd ansawdd trwy adolygiadau o safonau asesu, gwerthuso adnoddau a dadansoddi adborth dysgwyr.
Partneriaethau	Gall cyrff dyfarnu graddau ddilysu neu ryddfrenio micro-gymwysterau neu gyrsiau y gellir eu pentyrru.
	Mae sicrhau bod gan bartneriaid nodau wedi'u halinio a pholisïau sefydliadol wedi'u cysoni yn hollbwysig er mwyn meithrin cyd-ymddiriedaeth.
	Dylid pwysleisio diogelu enw da sefydliadau a chysoni polisïau cyn cwblhau cytundebau cydweithio.
Adolygu Systemau Ansawdd, Polisi, a Gweithdrefnau	Mae'n rhaid i bartneriaethau gynnal gweithdrefnau ansawdd sy'n drylwyr, yn ddiogel ac yn agored i graffu, yn unol â darpariaethau cymeradwy (QAA, 2019).
	Dylai timau cynllunio gychwyn trafodaethau ag arbenigwyr gwasanaethau proffesiynol mewnol, gan gynnwys gwella ansawdd, y gofrestrfa a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr.
	Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau rheoli ansawdd yn gallu darparu ar gyfer micro-gymwysterau heb newidiadau anymarferol i systemau macro-gymwysterau presennol.

4 Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG

Yn ystod y cam hwn, rhaid i sefydliadau wneud yn siŵr bod yn rhaid i brosesau cymeradwyo rhaglenni a sicrhau ansawdd fod yn addas i'r diben, wedi'u dogfennu'n glir ac yn hygyrch, a'u bod yn bodloni anghenion a disgwyliadau dysgwyr a rhanddeiliaid (Shapario, 2020, QAA 2022). Mae QAA (2022) yn mynnu y dylai darparwyr barhau i fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i sicrhau bod dysgu ac asesu o ansawdd uchel yn hygyrch ac nad ydynt yn rhoi dysgwyr ag anghenion neu nodweddion penodol dan anfantais. Mae QAA (2022) yn awgrymu y dylai darparwyr ystyried dull cymesur o weithredu mecanweithiau cymeradwyo heb gyfaddawdu ar gadernid, craffu allanol ac adborth. Mae QAA (2022) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Addysg Uwch gymryd gofal wrth gynllunio a sicrhau ansawdd rhaglenni, gweithredu meini prawf teg a phriodol ar gyfer derbyn dysgwyr, a'u bod yn darparu cymorth priodol a chymesur ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau i'w galluogi i lwyddo.

Addysgu a Chynllunio Cyrsiau

Wrth gynllunio micro-gymwysterau, mae QAA (2018) yn pwysleisio pwysigrwydd trosolwg strategol cyson a thryloyw o brosesau cynllunio, datblygu a chymeradwyo cyrsiau. Ar y cam hwn o'r broses gynllunio, dylai datblygiad micro-gymwysterau newydd ystyried y dulliau cyflwyno, anghenion dysgwyr, safonau achredu proffesiynol, a deilliannau ehangach y rhaglen. Dylai materion ymarferol, megis mynediad o bell at adnoddau llyfrgell, cymorth i fyfyrwyr a thiwora personol, hefyd ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio. Gan fabwysiadu egwyddorion addysgeg, rhaid i dimau gynllunio hefyd gydnabod heriau unigryw dysgwyr anhraddodiadol, megis rhwystrau o ran eu sefyllfa, eu hymagwedd a sefydliadol. Dylai timau cynllunio bwysleisio bod rhaid i ddiwyg cyrsiau, ynghyd â dulliau addysgu ac asesu, fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a wynebier gan ddysgwyr anhraddodiadol er mwyn gwella ymgysylltiad. Dylai timau cynllunio cyrsiau fod yn arloesol a chael eu harwain gan theori dysgu yn hytrach na chael eu dominyddu gan agendâu sydd ynghlwm â'r campws neu sy'n cael eu gyrru gan dechnoleg.

Asesiad

Dylai dulliau asesu ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr, yn ogystal â bod yn seiliedig ar feini prawf clir ac yn ymwybodol o ofynion achredu proffesiynol. Dylai asesu ar gyfer micro-gymwysterau, fel yr amlinellwyd gan QAA (2022), ganolbwyntio ar y dysgwr ac wedi'i alinio â chanllawiau asesu ar gyfer achrediad sefydliadol a phroffesiynol. Mae'n bwysig cofio bod llythrennedd asesu, sy'n cynorthwyo myfyrwyr i ddeall unrhyw ddyfarniad academiaidd, yn hanfodol ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol. Dylai timau cynllunio ystyried uned sefydlu estynedig ym mhob micro-gymhwyster sy'n canolbwyntio ar systemau asesu sgiliau academiaidd a sesiynau cymorth gyda thiworiaid personol. Mae natur gryno micro-gymwysterau'n gofyn am gynllunio asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn ofalus, gyda meini prawf yn cael eu cyflwyno'n gynnar i gynorthwyo dealltwriaeth.

Ymrestru

Mae Henderikx et al. (2022) o blaid meini prawf agored ar gyfer ymrestru ar gyfer rhaglenni micro-gymwysterau, fyddai'n caniatáu i ddysgwyr ddangos eu parodrwydd trwy brofiadau gwaith blaenorol neu bortffolios dysgu. Tra'n anelu at ehangu hygyrchedd, dylai sefydliadau a thimau cynllunio sicrhau bod prosesau derbyn tryloyw yn adlewyrchu polisïau presennol y brifysgol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol a hŷn Gellir defnyddio cyfnodau derbyn traddodiadol gyda phroses ymgeisio dryloyw a chanllawiau i systemau. Gall

sefydliadau hefyd ystyried sut y gallant gydnabod priodoleddau myfyrwyr hŷn trwy ddefnyddio rheoliadau dysgu blaenorol cydnabyddedig.

Ymgysylltiad Myfyrwyr

Mae QAA (2022) yn pwysleisio pa mor ganolog yw ymgysylltiad myfyrwyr mewn darpariaethau sy'n dwyn credydau, gan gynghori y gallai fod angen strategaeth ymgysylltu wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer micro-gymwysterau. Dylai'r strategaeth hon gynnwys myfyrwyr ar raglenni micro-gymwysterau mewn sicrhau ansawdd, gwneud penderfyniadau, yn ogystal â'r camau cynllunio, cymeradwyo ac adolygu. Bydd angen cynrychiolaeth ar fyfyrwyr micro-gymwysterau mewn pwyllgorau ansawdd a gweithgorau, yn ogystal â bod yn rhan o fecanweithiau adborth mewnol sy'n bodoli eisoes. Rhaid i gefnogaeth a hyfforddiant arbenigol fod ar gael ar gyfer y cynrychiolwyr myfyrwyr hyn sydd wedi'u cynllunio i symleiddio cyfranogiad myfyrwyr heb orlwytho'r dysgwr na gor-gymhlethu system ar gyfer portffolio mawr o gyrsiau micro-gymwysterau. Dylid cynnal gwerthusiadau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob micro-gymhwyster gan ddefnyddio fforymau anghydamserol a mecanweithiau cydamserol; dylai myfyrwyr sy'n cwblhau llwybrau y gellir eu pentyrru gymryd rhan yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ar ôl cwblhau eu micro-gymhwyster terfynol ar gyfer dyfarniad ffurfiol.

Pryderon, Cwynion ac Apeliadau

Mae QAA (2018) yn pwysleisio arwyddocâd pryderon, cwynion, ac apeliadau wrth fireinio profiad myfyrwyr, gan annog sefydliadau i ddogfennu deilliannau ffurfiol, casglu ynghyd materion anffurfiol, a rhannu canfyddiadau adolygiadau gyda chynrychiolwyr myfyrwyr i wella'r ddarpariaeth addysgol ymhellach. Rhaid i bob micro-gymhwyster ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw am brosesau cwyno ac apelio cyn cofrestru ac o fewn uned sefydlu'r cwrs, gan fanylu ar y weithdrefn, yr amserlen ar gyfer codi materion, a'r unigolion fydd ynghlwm yn y broses. Yn hollbwysig, rhaid cynnal hawl pob dysgwr i degwch, urddas a pharch yn ystod y prosesau hyn. Bydd angen i dimau cynllunio ystyried a ddylai darpariaethau micro-gymwysterau alinio a gweithredu polisiau pryderon, cwynion ac apeliadau cyfredol yn gyffredinol yn achos pob micro-gymhwyster heb addasiadau pwrpasol.

Gweithredu Cam Cynllunio a Chymeradwyo FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol

Testun Ansawdd	Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio
Goruchwyliaeth Strategol a Chymeradwyo Cyrsiau	Dylai goruchwyliaeth strategol barhau i fod yn dryloyw ac yn gyson ar draws cynllunio, datblygu, prosesau cymeradwyo a deilliannau cyrsiau.
	Dylai prosesau cymeradwyo cyrsiau fod yn gadarn, yn hyblyg ac yn ymatebol.
	Gall fod yn well cymeradwyo micro-gymwysterau o fewn llwybrau y gellir eu pentyrru na'u datblygu'n unigol oherwydd effeithlonrwydd adnoddau a pharhad dysgu.
	Dylai prosesau cymeradwyo cyrsiau macro-gymwysterau presennol fod yn ddigon hyblyg ar gyfer cymeradwyo micro-gymwysterau y gellir eu pentyrru.
Dysgwyr Targed	Ystyriwch anghenion y dysgwyr a dargedir, yn enwedig os ydynt yn oedolion anhraddodiadol.
	Dylid adolygu ac addasu strategaethau asesu i ddarparu ar gyfer proffiliau dysgwyr penodol
Egwyddorion Addysgeg	Dylai rhaglenni micro-gymwysterau mewn sefydliadau archwilio ystod o egwyddorion addysgeg a bod yn gynhwysol.
	Dylai diwyg y cwrs ystyried heriau a rhwystrau penodol sy'n effeithio ar oedolion wrth iddynt ddysgu.
	Mynd i'r afael â phroblemau y mae dysgwyr anhraddodiadol yn eu hwynebu mewn lleoliadau traddodiadol, megis heriau'n ymwneud â'u sefyllfa, eu hymagwedd a sefydliadol.
Cynnwys, Strwythur, a Phosibilrwydd Pentyrru	Sicrhau bod micro-gymwysterau yn cynnal cywirdeb academiaidd trwy ddefnyddio Fframweithiau Cymwysterau a Datganiadau Meincnod Pwnc.
	Dylai diwyg y cwrs ddarparu ar gyfer pam mae dysgwyr yn ymwneud â micro-gymwysterau a'u hanghenion unigryw.
	Ystyriwch y dulliau addysgol "cywir" ar gyfer grwpiau amrywiol o ddysgwyr.
	Sicrhewch fod llwybrau y gellir eu pentyrru'n rhoi rheolaeth i ddysgwyr dros ddilyniant eu hastudiaethau.
	Dylai pob micro-gymhwyster fynd trwy ymarfer alinio adeiladol, gan sicrhau aliniad priodol o ran safonau academiaidd a, lle bo'n berthnasol, safonau proffesiynol.
	Dylai micro-gymwysterau fod yn fesuradwy, yn gymaradwy ac yn dryloyw o ran deilliannau dysgu, llwyth gwaith a chynnwys.
Dull a Chyflwyniad	QAA (2022): Gellir cyflwyno micro-gymwysterau ar-lein, wyneb-yn-wyneb, neu ar ffurf hybrid, gan gynnig hyblygrwydd o ran amserlennu.
	Dylid blaenoriaethu dealltwriaeth ac ystyriaeth o wahanol ddamcaniaethau dysgu.
	Pwysleisiwch adeiladu cymuned ddysgu i leihau arwahanrwydd dysgwyr (Kauffman, 2015).
	Dylai'r rhai sy'n cynllunio cyrsiau fynd y tu hwnt i gasglu ynghyd y cynnwys angenrheidiol a chanolbwyntio ar weithgareddau dysgu ar-lein ystyrllon, a phwrpasol.
Asesiad	Dylai meini prawf asesu fod yn dryloyw, ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Mae QAA (2022) yn argymhell bod asesiadau'n cael eu teilwra ar gyfer anghenion y cwrs.
	Dylai asesu micro-gymwysterau alinio â chanllawiau asesu a marcio sefydliadol.
	Dylai fod gan ddysgwyr micro-gymwysterau fynediad uniongyrchol a thryloyw at ddogfennau polisi asesu'r brifysgol.
	Mae QAA (2019) yn tanlinellu pwysigrwydd meithrin dealltwriaeth gyffredin rhwng staff a phob myfyriwr ynghylch dyfarniadau academiaidd.
	Dylid datblygu Unedau Sefydlu i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu sgiliau academiaidd ac yn deall systemau cyflwyno asesiadau.
	Dylai pob rhaglen ficro-gymhwyster gynnwys sesiwn gymorth gyda thiwtor personol, gan bwysleisio pwysigrwydd adborth.
Rhaid i dimau cynllunio ystyried sut y gall cyfleoedd asesu ffurfiannol fod yn hanfodol ar gyfer datblygu llythrennedd asesu mewn dysgwyr anhraddodiadol.	

	Mae QAA (2019) yn pwysleisio y dylai asesiadau alinio â fframweithiau cymhwyster, fframweithiau credyd, a Datganiadau Meincnod Pwnc.
	Mae cyfleoedd ar gyfer ailasesu amserol yn hanfodol, a dylid eu cynllunio ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau.
	Mae cadw at brotocolau adborth presennol y brifysgol yn sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cryfderau o ran perfformiad, yn ogystal â meysydd i'w gwella.
	Mae defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir sy'n bodoli eisoes yn y sefydliad ar gyfer cyflwyno gwaith yn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth myfyrwyr.
	Dylai timau cynllunio micro-gymwysterau gadw at y rheoliadau presennol ar gyfer asesu er mwyn sicrhau tegwch wrth farcio a chymedroli.
	Mae QAA (2019) yn pwysleisio arwyddocâd byrddau arholi mewn penderfyniadau dyfarnu credyd a chymwysterau; rhaid i uwch reolwyr a thimau cynllunio ystyried a oes angen byrddau sy'n bodoli eisoes neu fyrddau arbenigol i reoli micro-gymwysterau a dyfarniadau y gellir eu pentyrru.

Testun Ansawdd	Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio
Ymrestru	Dylid anelu at dryloywder a chysondeb â pholisïau ymrestru presennol y brifysgol, gan ganolbwyntio ar dderbyniadau cynhwysol ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol
	Ystyriwch a all ymgeiswyr ddangos parodrwydd trwy waith, profiadau gwirfoddol, cymwysterau addysg ffurfiol/anffurfiol, a thystysgrifau proffesiynol.
	Dylai'r meini prawf adlewyrchu gofynion y cwrs, profiadau perthnasol, gwybodaeth am y pwnc, safonau cymhwysedd, a pherfformiad academaidd blaenorol.
	Ystyriaethau ynghylch cyfyngiadau fisa lle bo'n berthnasol.
	Pwyslais ar ddileu rhwystrau derbyn diangen
	Rhaid i staff sy'n ymwneud ag ymrestru fod yn ymwybodol o ofynion academaidd ac anacademaidd, gan gynnwys rheoliadau a osodir gan gyrrff proffesiynol, rheolau fisa, gofynion iaith ac iechyd, yn ogystal â rhagfarnau anymwybodol posibl.
	Mae angen sicrhau gwybodaeth dryloyw am gymorth ariannol ar gyfer pob dysgwr ar gyrsiau micro-gymwysterau.
	Ystyriwch aliniad â chyfnodau ymrestru presennol, gan leihau'r tarfu ar wasanaethau mewnol.
Ymgysylltiad Myfyrwyr	Rhaid i wybodaeth eglur a manwl fod ar gael ar gyfer ymgeisio a dethol yn ystod y cyfnodau hyn.
	Efallai y bydd angen addasu strategaethau ymgysylltu traddodiadol ar gyfer micro-gymwysterau; dylid gwreiddio mecanweithiau ymgysylltu wrth gyflwyno cyrsiau.
	Dylid ymgysylltu â'r corff myfyrwyr i lunio strategaethau amgen i ddysgwyr micro-gymwysterau ymwneud â'r camau cynllunio/cymeradwyo.
	Dylid cynnwys dysgwyr micro-gymwysterau yn y broses sicrhau a gwella ansawdd.
	Mae angen ymrwymiad i ddarparu cymorth a hyfforddiant arbenigol i gynrychiolwyr myfyrwyr micro-gymwysterau.
	Mae angen i fyfyrwyr micro-gymwysterau ymwneud â gwaith monitro a datblygu cynllun gweithredu blynyddol, gyda phwyslais ar ddiwylliant partneriaeth.
	Dylai sefydliadau flaenoriaethu cyfranogiad myfyrwyr wrth werthuso eu hansawdd addysgol.
	Dylai timau cynllunio ystyried cyfathrebu cyson am bwysigrwydd adborth trwy gydol rhaglenni dysgu cylchred-byr.
Dylai unedau sefydlu gynnwys canlyniadau gwerthuso'r gorffennol a champau gweithredu mewn ymateb iddynt.	
Anogwch adborth gan ddefnyddio fforymau anghydamserol a thiworialau cydamserol, er mwyn sicrhau anhysbysrwydd lle bo modd.	

5 Cynhyrchu yn ystod Cam FfCMG

Dylai tîm cynllunio'r rhaglen ystyried meini prawf y sefydliad ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm sy'n gynhwysol ac yn hygyrch, ond sy'n nodi'r angen am dechnegau addysgu sydd wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Dylai timau cynllunio rhaglenni drefnu'r cyfnod cynhyrchu adnoddau fel cam hanfodol yn y fframwaith cynllunio micro-gymwysterau. Mae'r cyfnod cyn-gynhyrchu yn canolbwyntio ar sawl ffactor, gan gynnwys nodi'r gynulleidfa darged, pennu cerrig milltir y prosiect, ynghyd â gosod strwythur y cwrs gyda deilliannau dysgu ac asesiadau (ffurfiannol a chrynodol). Rhaid i dîm cynllunio'r rhaglen archwilio gwahanol ddamcaniaethau dysgu a darparu ar gyfer heriau'r dysgwr anhraddodiadol, sy'n amrywio o bryderon technolegol i feithrin cymuned ddysgu. Rhaid i dîm y rhaglen a rheolwyr y sefydliad ystyried y llwyfan cyflwyno a'r modd ar gyfer cyflwyno cynnwys, ac a ddylid integreiddio â system reoli dysgu bresennol neu ddefnyddio llwyfan trydydd parti arbenigol. Dylai'r broses benderfynu hon ystyried ymarferoldeb a chost-efeithiolrwydd. Dylai agwedd hanfodol ar y cam hwn o gynllunio micro-gymwysterau gynnwys profi tasgau dysgu, llwyfannau a phrofiadau defnyddwyr, casglu adborth trwy astudiaethau ymchwil strwythuredig, holiaduron llwyth gwybyddol, ac e-arolygon profiadau defnyddwyr i fireinio meini prawf y cynllun. Bydd profion ac adborth cynhwysfawr cyn ei lansio yn cynorthwyo â'r gwaith o fireinio darpariaeth micro-gymwysterau effeithiol.

6 Cyfnod Cyflwyno, Monitro a Gwerthuso FfCMG

Dylai sefydliadau sicrhau bod cyrsiau micro-gymwysterau yn cynnwys adborth rheolaidd yn unol â pholisïau ar gyfer darpariaeth draddodiadol, ond rhaid iddynt ystyried y defnydd o werthusiadau anffurfiol yn ystod modiwlau ac ar gyfer y garfan gyfan. Gall mecanweithiau adborth, fel fforymau anghydamserol a thiworialau cydamserol, hyrwyddo adborth priodol gan fyfyrwyr a hwyluso'r broses werthuso ar gyfer gwelliant parhaus. Dylai'r broses werthuso hon ac adolygiad gwella'r rhaglen fwydo i mewn i'r system fonitro ganolog safonol, gan alinio ag unrhyw adolygiadau rhaglen cyfnodol sefydledig. Dylai adolygiadau cyfnodol gwmpasu llwybr micro-gymwysterau y gellir eu pentyrru yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na chysiau unigol, a'u cynnal gyda rhanddeiliaid academiaidd perthnasol. Dylid penodi arholwyr allanol gan ddilyn canllawiau QAA, a bydd angen i sefydliadau ystyried a yw'r arholwyr allanol hyn yn mynd i oruchwyllo micro-gymwysterau unigol neu lwybrau cyfan, gan sicrhau bod yr holl brosesau asesu ac adrodd cysylltiedig yn cyd-fynd â phrotocolau safonol y brifysgol. Rhaid i sefydliadau ystyried datblygiad staff parhaus a chynllunio ar gyfer olyniaeth, gan ymrwymo i sefydlu'r cymwyseddau angenrheidiol ar gyfer llwyddiant rhaglen ficro-gymhwyster.

Gweithredu Cam Cynhyrchu FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol

Testun Ansawdd	Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio
Cyn-gynhyrchu, Cynhyrchu a Phrofi	Ystyried egwyddorion cynllunio sefydliadol sy'n gynhwysol a hygyrch.
	Ystyried egwyddorion cynllunio darpariaeth ar-lein a hybrid gan y sefydliad.
	Gosod canllawiau ar gyfer y prosiect: costau, capasiti staff a hyd cyrsiau.
	Caniatáu amser digonol ar gyfer cynllunio a datblygu adnoddau dysgu.
	Archwilio amryw o ddamcaniaethau dysgu ar gyfer cynnwys, diwyg a chyflwyniad y cwrs.
	Ystyried sut i integreiddio swyddogaethau a gwasanaethau cymorth technegol gan y sefydliad
	Cydweithio â datblygwyr dysgu arbenigol i archwilio llwyfannau ac opsiynau addas i ddatblygu cymunedau dysgu.
	Archwilio a yw llwyfannau cyflwyno'n integreiddio i Systemau Rheoli Dysgu (LMS) presennol y brifysgol.
	Archwilio a yw unrhyw ddatrysiadau arfaethedig ar gyfer darparu digidol a'r LMS presennol yn dwysáu problemau tldi digidol ar gyfer dysgwyr anhraddodiadol
	Buddsoddi mewn meithrin gallu academaidd ar gyfer gweithio gyda dysgwyr anhraddodiadol ac wrth flaenoriaethu mecanweithiau dysgu digidol ac ar-lein.
	Sicrhau bod timau rhaglenni'n neilltuo amser priodol ar gyfer paratoi deunydd, materion hawlfraint, a pharatoi deunydd digidol.
Sicrhau bod timau rhaglenni'n neilltuo amser priodol ar gyfer profi a dadansoddi deunyddiau cwrs.	

Gweithredu Cam Cyflwyno, Monitro a Gwerthuso'r FfCMG - Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio Enghreifftiol

Testun Ansawdd	Cwestiynau a Phenderfyniadau Cynllunio
Cyflwyno a Gwerthuso	Sicrhau bod timau rhaglenni'n dangos sut y byddant yn blaenoriaethu adborth myfyrwyr yn unol â pholisiau a gweithdrefnau safonol y sefydliad.
	Sicrhau bod timau rhaglenni'n cynllunio ar gyfer Monitro Blynnyddol effeithiol.
	Dylid alinio Adroddiadau Blynnyddol â llinellau amser mewnol a'u hintegreiddio i Gynlluniau Ymgysylltiad Myfyrwyr ar lefel ysgol neu gyfadran.
	Dylid penodi arholwyr allanol yn unol â chanllawiau Còd Ansawdd QAA, ynghyd â pholisiau a gweithdrefnau safonol y sefydliad.
	Bydd angen gweithredu prosesau a byrddau arholi yn gyson a dylid eu hintegreiddio i brosesau safonol gydag addasiadau priodol.

Cyfeirnodau:

Brown, M., & Nic-Giolla-Mhichil, M. (2022). Unboxing micro-credentials: an inside, upside and downside view (Descifrando las microcredenciales: en qué consisten, ventajas e inconvenientes). *Culture and Education*, 34(4), 938-973.

Henderikx, P., Ubachs, G., & Antonaci, A. (2022). *Modelau a chanllawiau ar gyfer cynllunio a datblygu cyrsiau micro-gymwysterau ac unedau micro-ddysgu mewn addysg uwch*. Global Academic Press.

Hudak, R., & Camilleri, A. (2021). *Canllaw i ddefnyddwyr micro-gymwysterau* (pp 1–27). MicroHE. https://microcredentials.eu/wp-content/uploads/sites/20/2021/05/D3_3_MicroHE-Users-Guide-1.pdf

Osborne, S.K. & Thirlaway, K. Gweithdy ar gyfer Fframwaith Cynllunio Micro-gymwysterau. Cynhadledd Addysgu Genedlaethol AUYmlaen. Gorffennaf 2023

QAA (2018) Cyngor ac Arweiniad - Côd Ansawdd DU: Cynllunio a Datblygu Cyrsiau <https://www.qaa.ac.uk/cy/the-quality-code/advice-and-guidance/course-design-and-development>

QAA (2018) Cyngor ac Arweiniad - Côd Ansawdd DU: Pryderon, Cwynion ac Apeliadau <https://www.qaa.ac.uk/en/the-quality-code/advice-and-guidance/concerns-complaints-and-appeals>

QAA (2018) Cyngor ac Arweiniad - Côd Ansawdd DU: Partneriaethau <https://www.qaa.ac.uk/cy/the-quality-code/advice-and-guidance/partnerships>

QAA (2022) Datganiad o Nodweddion Micro-gymwysterau. Ar gael yn <https://www.qaa.ac.uk/the-quality-code/characteristics-statements/micro-credentials>

Shapiro Futures, H., Andersen, T., & Nedergaard Larsen, K. (2020). *Agwedd Ewropeaidd at ficro-gymwysterau: Papur cefndir ar gyfer cyfarfod cyntaf y grŵp ymgynghori ar ficro-gymwysterau*. Papur Polisi, y Comisiwn Ewropeaidd. <https://ec.europa.eu/education/sites/default/files/document-library-docs/european-approach-micro-credentials-higher-education-consultation-group-output-annex-1.pdf>

Varadarajan, S., Koh, JHL, a Daniel, BK (2023). Adolygiad systematig o'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â micro-gymwysterau ar gyfer rhanddeiliaid lluosog: dysgwyr, cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r llywodraeth. *International Journal of Educational Technology in Higher Education*, 20(1), 1-24.

Cyhoeddwyd – Hydref 2023

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk